

## Adroddiad Blynyddol gan Gyngorydd 2017/18

Hwn yw'r adroddiad gan y Cyngorydd isod ar ei gweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cyngorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cyngorydd: Nicola Roberts**  
**Grwp: Plaid Cymru**

**Ward: Canolbarth Môn**

### 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

Rhwng Mai 2017 a Mawrth 2018, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:	Nifer y cyfarfodydd a drefnwyd	Nifer a fynychwyd
Cyngor	9	8
Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion (Cadeirydd)	11	11
Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd	4	3
Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol	11	7
Pwyllgor Trwyddedu (Cadeirydd)	1	1
Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd	5	1
Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio	4	3
<p>Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir. Gall trefniadau cyflogaeth Aelod hefyd effeithio ar lefelau presenoldeb.</p> <p><i>Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrrff allanol, er enghraifft.</i></p>		

Rwyf yn aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ac wedi mynychu 4 allan o'r 6 cyfarfod a drefnwyd. Rwyf hefyd yn aelod o'r Pwyllgor Buddsoddi a Chontractau'r Ymddiriedolaeth a ddim wedi mynychu'r 1 cyfarfod a drefnwyd.

<b>Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:</b>
Cyd-bwyllgor Ymgynghorol yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Pencampwr Cydraddoldeb
Cyngor ar Bopeth
Llywodraethwr – Ysgol Gynradd Talwrn
Llywodraethwr – Ysgol Gynradd y Graig

## 2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

Rwy'n parhau i fod yn llywodraethwr yn Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn, rhywbeth yr ydw i'n ei fwynhau. Rwy'n Gynghorydd Tref yn Llangefni ac yn ceisio mynychu cymaint â phosibl o fy nghyfarfodydd Cyngor Cymuned sef Llanddyfnan, Bodffordd, Gwalchmai a Bryngwran er yr anhawster eu bod yn cael eu cynnal ar yr un noson. Rwy'n parhau i fynychu a chefnogi cymaint o ddigwyddiadau â phosibl yn fy etholaeth er mwyn ymgysylltu â' gymuned cymaint â phosibl.

## 3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Rwy'n wirfoddolwr brwd gyda Menter Gymdeithasol Llangefni ac wedi cefnogi marchnad Llangefni. Rydw i hefyd wedi bod yn rhan o dîm rhagorol sy'n trefnu amrywiaeth o ddigwyddiadau llwyddiannus gan gynnwys troi'r goleuadau Nadolig ymlaen a dathliad y Gwanwyn. I gyd rwy'n gobeithio sy'n helpu i adfywio Llangefni.

## 4 - Dysgu a Datblygu

Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i darparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):

Cyflwyniad i Wasanaethau'r Awdurdod	11/05/2017
Cyflwyniad i Wasanaethau'r Awdurdod	18/05/2017
Hyfforddiant IPad	18/05/2017
Sesiwn Briffio – Cynllun Corfforaethol a'r Côt	18/05/2017
Cyllid gan gynnwys Cyllidebu a Thrysorlys	25/05/2017
Diogelu Sylfaenol	01/06/2017
Cyflwyniad i e-ddysgu	16/01/2018
Cyflwyniad i e-ddysgu	16/01/2018
Hyfforddiant Trwyddedu	13/03/2018
Sesiynau Briffio Aelodau ( 8 allan o 12)	Mai 2017 – Mawrth 2018
<i>Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft.</i>	

## 5 – Gweithgareddau a Materion Eraill

Rwy'n parhau i fod yn aelod gweithgar yn fy ward wrth i mi ddelio ag amrywiaeth o faterion ond rwy'n ceisio peidio â bod yn aelod bwrdd ar is-bwyllgorau a grwpiau llywio yn lleol gan fy mod yn teimlo ei bod yn bwysig fy mod yn aros yn ddiudedd gan fod y gymuned angen llais cryf petai angen pleidlais ar y materion hyn. Rwy'n gobeithio parhau i fod yn eiriolwr effeithiol ar ran fy mhobl.

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma:

<http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=268&LLL=1>

**Y Cynghorydd Nicola Roberts**

**Ebrill 2018**